

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU
25 MEDI 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned, Tai ac Asedau
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Gwener, 25 Medi 2020.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared
Eastwood, Veronica Gay, Ray Hughes, Dennis Hutchinson a Kevin Rush

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd: Brian Lloyd, Billy Mullin a Ian Roberts

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn bresennol
fel arsylwr.

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; Prif Weithredwr;
Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Uwch Reolwr Tai ac Asedau, Rheolwr Strategaeth
Tai, Uwch Reolwr Tai ac Atal, Rheolwr Refeniw, Rheolwr Budd-daliadau a
Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes.

HEFYD YN BRESENNOL: Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ag
Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.

1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y
Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Llafur. Cafodd y Pwyllgor
wybod fod y Cynghorydd Ian Dunbar wedi cael ei benodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn
y cyngor.

PENDERFYNWYD:

Nodi penodiad y Cynghorydd Ian Dunbar fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Ron Davies y Cynghorydd Ray Hughes fel Is-
gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Rush. Ni chafwyd
unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Ray Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

4. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Dennis Hutchinson.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

5. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)

Fe eglurodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn un ansefydlog. Byddai'r Prif Weithredwr a'i Uwch Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariad byr ar lafar ar ddechrau cyfarfodydd. Dywedodd hefyd y gallai fod yn angenrheidiol ailgyflwyno'r briffiau o'r sefyllfa a gafodd eu rhoi i Aelodau yn ystod chwe mis cyntaf yr argyfwng.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r diweddariad ar lafar.

6. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

Cyflwynodd Hwylusydd Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymuned ag Addysg yr adroddiad i dderbyn cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor fel y cytunwyd gan y Cyngor. Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, penodwyd Cadeiryddion i'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o fewn y strwythur newydd gyda chylch gorchwyl diwygiedig. Newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn cynnwys cael gwared ar eitemau adfywio i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Yr Amgylchedd ac Adfywio ac ychwanegu'r eitemau canlynol:

- Ymgynghoriaeth Eiddo a Dylunio
- Prisio ac Ystadau
- Gwasanaethau Cyfleusterau
- Asedau Cymunedol
- Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- NEWydd

PENDERFYNWYD:

Bod y cylch gorchwyl, fel y cytunwyd gan y Cyngor ac sydd yn atodiad i'r adroddiad, yn cael ei nodi.

7. STRATEGAETH ADFERIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i roi trosolwg i'r Pwyllgor o gynllunio adferiad ar gyfer ei feysydd portffolio yn rhan o'r strategaeth er mwyn ailgychwyn y broses lywodraethu ddemocrataidd llawn. Byddai adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am y cofrestru risg, y blaenoriaethau adferiad a thargedau dangosydd perfformiad diwygiedig ar gyfer eu meysydd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet cyn cyhoeddi'r Strategaeth Adferiad llawn.

Cafwyd cyflwyniad oedd yn dangos y trosglwyddiad o ymateb i adferiad am y pwyntiau canlynol:

- Argymhellion gan y Cabinet
- Amcanion y Strategaeth Adferiad
- Amcanion yr ymateb
- Enghreifftiau o gyflawniadau lleol wrth ymateb
- Adferiad – trefniadau trosglwyddo
- Strwythurau adferiad rhanbarthol a lleol
- Amcanion adferiad - Gwasanaethau
- Gweithgareddau adferiad
- Adferiad cymunedol
- Cynllun a pherfformiad y Cyngor
- Llywodraethu adferiad yn ddemocrataidd

Rhoddodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Uwch Reolwyr gyflwyniad manwl ar y gofrestr risg ar gyfer y portffolio gwasanaeth oedd yn cynnwys y canlynol:

- Risgiau Asedau a Thai
- Dyrannu Risg
- Tuedd Risg
- Ariannol
- Gweithlu
- Eiddo ac Asedau
- Llywodraethu a'r Gyfraith
- Gwasanaethau Atal Digartrefedd

Fe awgrymodd yr Hwylusydd fod Aelodau yn ystyried risgiau o bryder parhaus a sut orau i'w hadrodd i'r Pwyllgor er mwyn dylanwadu ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol. Dywedodd y byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd, Prif Swyddog a'r Uwch Dîm Rheoli i gyfrannu at y rhaglen waith i'r dyfodol i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Wrth ymateb i gwestiwn am eiddo gwag fe gynghorodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau fod yna ystod eang o eiddo gwag ar draws y Sir, eiddo 1 a 2 lofft yn bennaf.

Mewn ymateb i gwestiwn am grantiau cyfleusterau i'r anabl fe gynghorodd y Rheolwr Budd-daliadau fod gwaith wedi ail-ddechrau ar brosiectau canolig a mawr. Fe sicrhodd y Pwyllgor fod yr achosion mwyaf brys wedi parhau yn ystod y sefyllfa o argyfwng ond fe amlinellodd pa mor betrusgar oedd rhai pobl o gael gweithwyr yn gweithio ar eu cartrefi felly roedden nhw'n cydweithio'n agos gyda'r bobl hyn. Hefyd darparodd ddiweddariad ar y gwaith sydd wedi'i wneud â'r Tîm Caffael i sicrhau mwy o ymrwymiad gyda chontractwyr cyn dechrau ar y gwaith ar yr eiddo.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gefnogi'r argymhellion yn cynnwys y blaenoriaethau adferiad nesaf a nodwyd yn yr adroddiad, ochr yn ochr â chytuno â'r dadansoddiad risg a chymau gweithredu lliniaru. Cafodd y rhain eu cynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'u heilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y gyfres lawn o flaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer adfer y portffolio fel y nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu nodi, ynghyd â'r dadansoddiad risg a chamau gweithredu lliniaru ar gyfer y rhai presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio; a
- (b) Bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn cael ei ail-lunio ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21, gyda chynllunio adferiad yn ganolbwynt.

8. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.36 am)

.....
Y Cadeirydd